# Fron-goch

**Cwestiwn allweddol: Pam bod Fron-goch yn bwysig yn hanes Cymru ac Iwerddon adeg y Rhyfel Byd Cyntaf?**

**Nod y wers:** Datblygu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd Fron-goch mewn gwahanol gyd-destunau hanesyddol: fel distyllfa whisgi, fel gwersyll i garcharorion Almaenig ac i wrthryfelwyr Gwyddelig Gwrthryfel y Pasg. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ymchwilio, darllen a deall adnoddau gwreiddiol ysgrifenedig a gweledol er mwyn dysgu mwy am hanes y safle.

**Ffocws:** Hanes, llythrennedd, TGCh

**Sbardun:**
**Cam 1** Gall y disgyblion ddefnyddio **mapiau** o'r pecyn i ddarganfod sut mae'r defnydd o safle Fron-goch wedi newid dros amser.

**Cam 2** Gall yr athro ddefnyddio ffilm cyfweliad Lyn Ebenezer i gyflwyno ffeithiau allweddol am hanes y safle fel gwersyll carcharorion adeg y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Prif dasg:**
**Gwaith grŵp - creu adnodd digidol ar bwysigrwydd Fron-goch**
Gall aelodau'r grŵp ymgymeryd â rolau penodol wrth greu'r adnodd. Gallai'r rhain gynnwys

- ymchwilio
- creu testun
- technegol
- golygu

Gall disgyblion benderfynu pa fath o gyflwyniad digidol maent am ei greu, er enghraifft:

- Cyflwyniad digidol yn defnyddio gwefan debyg i https://prezi.com/
- e-lyfr
- inffograffeg yn defnyddio gwefan debyg i https://www.canva.com/
- stori ddigidol yn defnyddio i-movie
- cyflwyniad PowerPoint

**Gweithgaredd grynhoi:**

- Penodi panel o feirniaid a chreu cystadleuaeth dosbarth/blwyddyn
- Adolygiad ysgrifenedig o'r cyflwyniadau neu'r cyflwyniad sy'n dod i'r brig